# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 23 Tachwedd 2020

Amser: 10.00 - 11.34

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6475

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AS (Cadeirydd)<br>Carwyn Jones AS<br>Dai Lloyd AS<br>David Melding AS |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Nia Moss (Ymchwilydd)<br>Gruffydd Owen (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Rhiannon Lewis (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi penderfynu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Offerynnau a ystyriwyd yn flaenorol i'w sifftio ac sydd bellach yn destun gwaith craffu o dan Reolau Sefydlog 21.2 a 21.3

### 2.1 SL(5)656 – Rheoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 2.2 SL(5)657 – Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 a 21.3

### 3.1 SL(5)655 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 3.2 SL(5)659 – Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 3.3 SL(5)660 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 4 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 ond sydd â goblygiadau o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd.

### 4.1 SL(5)654 - Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd i dynnu sylw at faterion sy'n codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd.

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd yn flaenorol

### 5.1 SL(5)648 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

### 5.2 SL(5)649 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

### 5.3 SL(5)653 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

## 6 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

### 6.1 WS-30C(5)204 - Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Iechyd Planhigion etc.) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth.

### 6.2 WS-30C(5)205 - Rheoliadau Anifeiliaid, Iechyd Anifeiliaid Dyfrol, Rhywogaethau Estron Ymledol, Deunydd a Hadau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth.

## 7 Papurau i'w nodi

### 7.1 Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Bil Pysgodfeydd y DU

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

### 7.2 Llythyr gan y Prif Weinidog: Etholiad y Senedd yn 2021 ac adroddiad y Grŵp Cynllunio Etholiadau

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Prif Weinidog.

### 7.3 Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Y Cynllun Taliad Sylfaenol a Ffframwaith Deddfwriaethol o ran Cymorth Gwledig o 2021 ymlaen

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 9 Gwybodaeth am drefniadau ar gyfer Etholiad y Senedd yn 2021

Derbyniodd y Pwyllgor friff ar drefniadau ar gyfer Etholiad y Senedd yn 2021.

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Marchnad Fewnol y DU - trafod yr adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor y drafft diwygiedig o'i adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil Marchnad Fewnol y DU, a chytunodd i gwblhau'r newidiadau y tu allan i'r Pwyllgor cyn ei osod erbyn y terfyn amser gofynnol.

## 11 Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) – trafod yr adroddiad drafft

Ystyriodd y Pwyllgor ddrafft cyntaf ei adroddiad ar Fil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), a chytunodd i ystyried drafft diwygiedig yn y cyfarfod nesaf.

## 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwasanaethau Ariannol – trafod materion allweddol

Trafododd y Pwyllgor y materion allweddol mewn perthynas â Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Gwasanaethau Ariannol, a chytunodd i drafod adroddiad drafft mewn cyfarfod yn y dyfodol.